Darganfod
Dadlau
Dewis
—
Discover
Debate
Decide

# Gweithgareddau Cyfnod Allweddol 3
# Nodiadau i athrawon



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

# Nodiadau i athrawon

## 01_Dod i adnabod dy Gynulliad di

## Diben:

- Dysgu am Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cyflwyno ffeithiau am y Cynulliad ac am ddemocratiaeth i eraill.

## Cysylltiadau fframwaith ABCh:

**Dinasyddiaeth weithgar**

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddeall:

- Egwyddorion democratiaeth yng Nghymru.

**Datblygu TGCh**

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu;
- greu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

**Gweithio gydag eraill**

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.

## Gweithgareddau:

**Gweithgaredd 01 – Her y geiriadur**

Diben y gweithgaredd hwn yw cyflwyno peth o'r eirfa a ddefnyddir wrth sôn am Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid defnyddio'r gweithgaredd fel cyflwyniad i'r gweithgareddau yn yr uned hon.

**Yr Adnoddau sydd eu hangen**:

- Copïau o'r daflen waith i ddisgyblion (Gweithgaredd 01 – Her y Geiriadur);
- Geiriaduron neu ddefnydd o gyfrifiadur a'r rhyngrwyd.

**Gweithgaredd 02 – Pwy yw pwy?**
Diben y cwis yw arwain y disgyblion i ddarganfod gwybodaeth am Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ddefnyddio gwefan y Cynulliad. Dylid defnyddio'r cwestiynau isod fel sail i drafodaeth dosbarth.

**Adnoddau sydd eu hangen:**
- Defnydd o'r rhyngrwyd;
- Copïau o'r daflen waith i ddisgyblion (Gweithgaredd 02 – Pwy yw pwy?).

**Gweithgaredd 03 – Dod o hyd i'ch partner**
Wrth wneud y gweithgaredd hwn bydd disgyblion yn dod o hyd i wybodaeth am y ffordd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio.

Dylai'r disgyblion fynd o gwmpas y dosbarth yn chwilio am berson sydd â cherdyn sy'n cyfateb i'w cerdyn hwythau. Unwaith y maent wedi dod o hyd i bartner, dylai'r ddau ddisgybl eistedd. Unwaith y bydd pawb wedi dod o hyd i bartner, gellid gofyn i'r disgyblion ddarllen y cardiau sydd o'u blaenau yn uchel.

**Yr adnoddau sydd eu hangen:**
- Taflenni disgyblion; (Gweithgaredd 03 – Dewch o hyd i'ch partner).
- Bydd angen copïau o'r cardiau ar gerdyn (neu wedi'u lamineiddio) ac wedi'u torri o flaen llaw (ar gyfer 32 disgybl, bydd angen dwy set o gardiau).

**Gweithgaredd 04 – Llinell amser y Cynulliad**
Diben y gweithgaredd hwn yw i'r disgyblion gael syniad o ddigwyddiadau'r 10 mlynedd ers datganoli. Gall y disgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau.

**Yr adnoddau sydd eu hangen:**
- Copïau o'r daflen Amserlen y Cynulliad;
- Defnydd o gyfrifiadur.

**Gweithgaredd 05 – Cwis rhifau**

Bydd y disgyblion yn gweithio'n annibynnol i gwblhau'r cwis, gan ddefnyddio gwefan y Cynulliad i'w helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol.

**Yr adnoddau sydd eu hangen:**

- Copïau o'r cwis i ddisgyblion;
- Taflen atebion ar y dudalen nesaf (i athrawon);
- Defnydd o'r rhyngrwyd (www.cynulliadcymru.org).

## 02_Beth mae'r Cynulliad yn ei wneud?

# Diben:

- Gwybod mwy am beth sy'n digwydd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Deall pa bwerau sydd wedi eu datganoli.

# Cysylltiadau fframwaith ABCh:

### Dinasyddiaeth weithgar

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddeall:

- Egwyddorion democratiaeth yng Nghymru.

### Datblygu TGCh

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- Ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

### Gweithio gydag eraill

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- Weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.

# Gweithgareddau:

### Gweithgaredd 01 – 20 Pwnc

Fel cyflwyniad i'r gweithgaredd, bydd y disgyblion yn trafod meysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, dylai gwneud hyn helpu'r disgyblion i sylweddoli pa mor berthnasol yw'r pwerau hyn i'w bywydau bob dydd. Dylai'r disgyblion hefyd drafod eu syniadau ynglŷn â'r meysydd sydd heb eu cynnwys ar y rhestr (h.y. y meysydd sydd heb eu datganoli neu a gadwyd yn ôl).

Bydd y disgyblion yn gweithio mewn grwpiau, yn gyntaf i drafod pa feysydd y maent yn eu gweld fel y rhai mwyaf pwysig/perthnasol iddynt hwy, wedyn i gynhyrchu taflen neu boster er mwyn cyfleu'r wybodaeth i eraill.

### Yr adnoddau sydd eu hangen:

- Poster yr 20 Pwnc;
- Defnydd o'r rhyngrwyd;
- Rhestr o'r materion a gadwyd yn ôl (i athrawon).

**Gweithgaredd 02 – A all y Cynulliad wneud deddfau?**
Cwis yw hwn sydd wedi'i seilio ar y wybodaeth y dylai'r disgyblion fod wedi'i dysgu wrth weithio ar y gweithgaredd blaenorol (20 Pwnc). Dylai'r disgyblion drafod mewn grwpiau a fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu creu deddfau ar y materion ar y rhestr. Gallai trafodaeth dosbarth ddilyn; bydd hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn deall pa rai yw'r materion datganoledig.

**Yr Adnoddau sydd eu hangen:**
- Taflen A all y Cynulliad wneud deddfau?
- Rhestr o'r materion a gadwyd yn ôl; (i athrawon)
- Defnydd o'r rhyngrwyd.

**Gweithgaredd 03 – Cwis y wê**
Diben y gweithgaredd yw annog y disgyblion i edrych am wybodaeth ar wefan y Cynulliad. Bydd yr holl wybodaeth angenrheidiol yn agendâu'r Cyfarfod Llawn a gyhoeddir o flaen llaw, a hefyd yng Nghofnod y Trafodion a gyhoeddir wedyn. Efallai y bydd o ddefnydd i'r disgyblion gwblhau darn cyntaf y gweithgaredd cyn y cyfarfod, wedyn gall y disgyblion wylio rhan o'r Cyfarfod Llawn yn fyw a chwblhau'r gweithgaredd yn nes ymlaen.

**Yr Adnoddau sydd eu hangen:**
- Copïau o'r daflen;
- Defnydd o'r rhyngrwyd, er mwyn dod o hyd i'r agendâu ac er mwyn gwylio'r cyfarfod (senedd.tv).

**Gweithgaredd 04 – Deddf Newydd**
Rhennir y dosbarth yn grwpiau o bedwar neu bump. Bydd pob grŵp yn canolbwyntio ar un 'Pwnc' (dylid dewis y rhai mwyaf diddorol!). Dylai pob grŵp greu 'Deddf' yn y maes sydd o ddiddordeb iddynt. Gwaith pob grŵp wedyn fydd 'gwerthu' eu Deddf hwy i'r grwpiau eraill. Bydd y disgyblion yn cyflwyno eu Deddf (mewn ffordd greadigol, gan gynnwys TGCh) cyn bod y dosbarth cyfan yn pleidleisio dros y dewis mwyaf poblogaidd.

Gall y disgyblion weithio ar bosteri, sloganau, cyflwyniadau PowerPoint, areithiau ac ati fel rhan o'u hymgyrch.

**Yr Adnoddau sydd eu hangen:**
- Copïau o boster yr 20 Pwnc;
- Defnydd o ystafell TGCh i greu posteri neu daflenni.

## 03_Pwy sy’n fy nghynrychioli i?

## Diben:

Darganfod pwy sy’n eu cynrychioli a sut mae cysylltu â nhw;
Canfod mwy am eu cynrychiolwyr;
Trafod y rhinweddau ddylai berthyn i Aelod Cynulliad, yn nhyb y disgyblion.

## Cysylltiadau fframwaith ABCh:

### Dinasyddiaeth weithgar

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddeall:

- Egwyddorion democratiaeth yng Nghymru;
- Sut y caiff cynrychiolwyr, ee Cyngor Ysgol, Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, Aelodau Seneddol Ewropeaidd, eu hethol, a deall eu swyddogaethau;
- Sut y gall pobl ifanc leisio’u barn a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

### Datblygu TGCh

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- Ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a’u datblygu;
- Greu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

### Gweithio gydag eraill

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- Weithio’n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.

## Gweithgareddau:

### Gweithgaredd 01 – Rhinweddau cynrychiolwr

Diben y gweithgaredd hwn yw annog y disgyblion i feddwl am y rhinweddau personol sydd eu hangen ar ein cynrychiolwyr, ac yna greu manyleb person ar gyfer Aelod Cynulliad newydd. Gall y disgyblion gymharu eu casgliadau â chasgliadau’r grwpiau eraill.

### Y pethau sydd eu hangen:

- Dim byd yn benodol.

**Gweithgaredd 02 – Pwy sy'n fy nghynrychioli i?**
Bydd y gweithgaredd hwn o gymorth i'r disgyblion wrth iddynt ddod i ddeall bod nifer o bobl yn eu cynrychioli. Bydd y disgyblion hefyd yn dysgu pwy yw'r holl gynrychiolwyr hyn. Dylid cwblhau'r gweithgaredd hwn cyn cychwyn ar Weithgaredd 03 ('Cwrdd â'ch cynrychiolwyr').

**Y pethau sydd eu hangen:**
- Copïau o'r daflen;
- Defnydd o'r rhyngrwyd.

**Gweithgaredd 03 – Cwrdd â'ch cynrychiolwyr**
Bydd y disgyblion yn cysylltu â rhai o'u cynrychiolwyr gan eu gwahodd i'r ysgol er mwyn iddynt gwrdd â'r disgyblion ac ateb eu cwestiynau. Gall grwpiau o ddisgyblion fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar y gwaith trefnu, ysgrifennu llythyrau neu e-byst, cydlynu'r rhestr gwestiynau, trefnu lluniaeth i'r gwesteion ac ati.

**Y pethau sydd eu hangen:**
- Copïau o'r taflenni a gwblhawyd yn ystod y gweithgaredd blaenorol.
- Dim anghenion eraill penodol, ond efallai y bydd y trefniadau a wneir cyn yr ymweliad yn golygu defnyddio adnoddau.

**Gweithgaredd 04 – Diwrnod ym mywyd**…
Dylai'r gweithgaredd helpu'r disgyblion i ddeall pa mor amrywiol a phrysur yw wythnos waith Aelod Cynulliad.

**Y pethau sydd eu hangen:**
- Copïau o'r dyddiadur i'r disgyblion;
- Papur a phensiliau neu ddefnydd o gyfrifiadur.

## 04_Mae Democratiaeth yn fyw – ocê!

## Diben:

Dechrau deall y broses o benderfynu.
Cymryd rhan mewn trafodaethau a dadleuon dosbarth.

## Cysylltiadau Fframwaith ABCh:

**Dinasyddiaeth Weithgar**

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddeall:

- Egwyddorion democratiaeth yng Nghymru.

**Datblygu cyfathrebu**

Rhoddir cyfleoedd i'r dysgwyr:

- Fynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol;
- gymryd rhan mewn dadleuon a phleidleisio ar faterion.

**Datblygu TGCh**

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- Ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu;
- Greu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

**Gweithio gydag eraill**

Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr:

- Weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.

## Gweithgareddau:

**Gweithgaredd 01 – Dadl dosbarth**

Gellid cynnal dadl dosbarth, wedi'i seilio ar un o'r pynciau a awgrymwyd. Byddai modd dweud wrth y disgyblion cyn y ddadl, er mwyn rhoi amser iddynt baratoi dadleuon. Gallai'r math yma o ddadl ddigwydd yn rheolaidd, a gellid cadw rhestr o bynciau addas ar gyfer dadleuon sydd i ddod. Cyn dechrau ar y gwaith hwn am y tro cyntaf, gallai'r athro roi enghreifftiau o'r mathau o ddadleuon y byddai'r disgyblion yn gallu eu defnyddio o blaid ac yn erbyn y cynnig.

**Y pethau sydd eu hangen:**

- Dylid rhoi copïau o'r daflen i'r disgyblion er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer y ddadl. Ar gyfer ail ddadl, neu ddadleuon pellach ni fydd angen darparu'r daflen.

**Gweithgaredd 02 – Pa mor anodd yw gwneud penderfyniadau?**
Dylai cwblhau'r gweithgaredd hwn helpu'r disgyblion i ddeall nad yw penderfyniadau bob tro yn amlwg ac y bydd pwysau gwahanol ar y rhai sy'n penderfynu.

Bydd y disgyblion yn gweithio mewn grwpiau i gyfleu safbwyntiau gwahanol ar bwnc llosg. Dylai bob grŵp fod â llefarydd, a fydd yn gyfrifol am gyflwyniad 3-4 munud i'r dosbarth cyn bod y drafodaeth yn agor i'r dosbarth. Mae tabl hefyd ar gael i'r disgyblion gofnodi canlyniadau eu trafodaethau ar effeithiau'r penderfyniad.

**Y pethau sydd eu hangen:**
- Copïau o'r daflen wybodaeth;
- Copïau o'r tabl i'w ddefnyddio yn ystod y trafodaethau.

**Gweithgaredd 03 – Pleidleisio yn 16 oed**
Dylai'r disgyblion ddechrau drwy drafod mewn grwpiau'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y syniad o ostwng yr oed pleidleisio i 16. Dylen nhw anelu at ychwanegu at y rhestr gan gynnig mwy o ddadleuon.

Gallent hefyd edrych ar www.votesat16.org.uk neu www.ukyouthparliament.org.uk/votesat16 am fwy o syniadau.

Gellid dilyn y gwaith cychwynnol gan ddadl dosbarth a phleidlais.

**Y pethau sydd eu hangen:**
- Copïau o'r daflen i ddisgyblion;
- Defnydd o'r we